

Y PARTHSYLLYDD

Fe wyddai amryw o awduron y ganrif ddiwethaf beth oedd llafur caled a dyfalbarhad. Ymddangosodd *Y Parthsylydd neu Eirfa Daearyddol* yn ddwy gyfrol swmpus, y gyntaf yn 1870 a'r ail yn 1875, a'r naill fel y llall dros 850 o dudalennau. Eu cynnwys yw miloedd ar filoedd o gyfeiriadau at wledydd, dinasoedd, trefi, pentrefi, plwyfi, mynyddoedd ac afonydd ar draws y byd, a gwybodaeth, sawl tudalen ar rai — gwledydd a dinasoedd yn bennaf — brawddeg neu ddwy yn unig yn nodi fawr mwy na lleoliad ar eraill. Paratowyd y gyfrol gyntaf a rhan ddechreuol yr ail gan y Parchedig John Emlyn Jones (Ioan Emlyn, awdur *Bedd y Dyn Tlawd*), a gweddill yr ail gan y Parchedig James Spinther James, y ddau yn weinidogion gyda'r Bedyddwyr. Cwynodd John Emlyn Jones i'r gwaith olygu iddo 'lawer o golliadau ariannol, o boenau meddyliol ac o afiechyd corfforol', ac yn wir bu farw yn 1873 a'r ail gyfrol heb gyrraedd ymhellach na'r llythyren 'L'.

Ymfrost James Spinther James oedd fod *Y Parthsylydd* yn cynnwys mwy o wybodaeth ddaearyddol a pharthedigol na unrhyw lyfr o'i faint a'i bris a iaith Saesneg. Mae ynddo, yn sicr, beth wmbredd o wybodaeth ffieithiol, ond mae llawer yn ymddangos yn ddi-fudd, a chyfran helaeth yn ymwneud â lleoedd di-nod y mae'n anodd credu y byddai neb yn ysu cael gwybod amdany'n nhw. Dyma, er enghraifft, y cyfeiriadau ar dudalen a ddewiswyd ar hap: Gundagai, Gundam, Gundamuck, Gundava, Gundelfingen, Gundicota, Gunduck, Gundwana, Gunga Gal, Guns, Guntersblum, Gunthorpe, Gunthwaite, Gunton.

Yr hyn a'm difyrrodd fwyaf wrth bori yn y cyfrolau oedd y sylwadau ar wahanol bobloedd. Mae'n anodd dirnad yn aml lle cafwyd y fath wybodaeth. Canmoliaeth uchel i rai. Rhyfeddir at ddysg dynion 'Iceland':

Y maent oll yn ddysgedig, nid oes yma ddyn na fedr ddarllen ac ysgrifenu, ac y mae rhai o honynt yn ddysgedig iawn. Y mae eu gallu meddyliol yn fawr anghyffredin, ac y maent gartref meun iethyddiaeth, gwyddoniaeth, rhif-fesuriaeth &c. Y mae llyfrau goreu Ewrop wedi cael eu cyfieithu i'r Norse, ac y mae barddoniaeth Milton yn cael ei ddarllen a'i gwerthfawrogi yn y bythod. Y mae yma lawer o gymdeithasau dysgedig, ac y mae ymwelwyr yn synu wrth glywed eu harweinwyr yn siarad Lladin.

Ac roedd Denmarc hefyd yn wlad ddiwylliedig:

Yn ol ei maint, nid oes nemawr i wlad wedi gwneuthur cymmaint dros addysg, llenyddiaeth, gwyyddor, a chelfyddyd ag y mae Denmarc wedi gwneuthur. Y mae'r sefydliadau addysgiadol yn lluosog ac yn effeithiol efelly, y mae'r cariad at ddarllen yn gryf iawn yn y bobl; mor gryf, fel nad oes yr un tŷ heb rhyw fath o lyfrgell ynddo, gan nad pa mor dylawd fyddo y preswylwyr.

Cymysgedd o rinweddau a ffaeileddau yw eraill:

Y mae'r Catalonïwr yn gadarn ac yn gewynog, yn amyneddgar mewn blinder ac eisiau, yn wrol, yn feiddgar, ac yn wrthnysig. Cyfrifir ef y morwr goreu yn y Canol-fôr, ond nid yw caredigrwydd diarebol y morwr yn un o nodweddau ei gymeriad anfoesgar ef; ac nid yw y gwragedd yn rhy brydferth, nac ychwaith yn rhy gariadlaw.

Nid yw'r awdur yn ofni cyffredinol am y miliynau ar filiynau o Hindwaid yn 'Hindoostan':

. . . prif nodwedd corfforol yr Hindwaid ydyw eu mawr ystythdra a'u hyblygrwydd, yr hyn sydd yn eu gwneuthur y rhedegwyr, y codymwyr, y neidwyr, a'r dringwyr goreu yn Asia, ond nid oes nerth para ynddynt . . . Prif nodwedd meddyliol yr Hindwaid yw cyfrwystrada ac ystryw; gan hynny, disgrifir hwynt yn briodol iawn "y prymwyr a'r gwerthwyr ciwtaf yn y byd". Yn eu moesau y maent yn hynaws, ac yn hoffi bod o'r neilldu; y mae ofnusrwydd ac amhenderfynolrwydd y nodweddau cyffredinol; ac y maent wedi profi eu hunain, pan o dan arweiniad swyddogion Ewropiaidd, yn filwyr ffyddlaw, ac ufudd, ac yn wrol ar y maes. Yn mhlith eu ffaeileddau amlycaf y mae hocoed a thwyll, ac y maent yn fyr iawn o degwch a gonestrwydd.

Mae'r *Parthsylydd* yn go lawdrwm ar y Babaeth:

Y mae y Gwyddeolod yn bobl gymmeradwy; yn garedig, lletygar, a thyner-galon; ond y maent yn y cyfngorff o honynt yn Babyddion; ac y mae'r offeiriad Pabaid, heintiau, a newyn, wedi gwneuthur hafoc annileadwy yn eu plith. Nid ydynt heb eu teimladau, ac nid rhyfedd fod miliynau o honynt wedi ymfudo yn y chwarter ganrif ddiwethaf yma.

Cafodd yr Eidalwyr waredigaeth:

Y mae traws-awdurdod yr offeiriad Pabyddol wedi cael ei ddarostwng, ac y mae addysg a chrefydd wedi cael yr aden, ac yn ehedfan gyda buandra boddhaol a synfawr. Yr oedd yma 14,807 o fonachod, a 14,184 o fonachesau — cyfanswm, 28,991; ond y mae deddf Seneddol wedi cael ei phasio i osod i lawr amryw o sefydliadau y lladron a'r puteiniaid yma; ac y mae'r arian a gamddefnyddid mor halogedig o warthus yn cael eu defnyddio at addysg y bobl.

Y PARTHSYLLYDD;

NEU

EIRLYFR DAEARYDDOL,

REF

HANES YR HOLL FYD.

YN ADDURNEGIO A MAPIAU LLIWIEDIG.

GAN Y PARCH. JOHN EMLYN JONES, A.C., D.C.;

AWDUR "HANES PRYDAIN FAWR," &c., &c.

CYFROL I.

CWMAFON:

ARGRAFFWYD A CHYHOEDDWDYD GAN DAVID GRIFFITHS.

M,DCCO,LXX.

Ond mynnir bod y Babaeth i'w beio, yn rhannol o leiaf, am gyflwr truenus merched Ffrainc:

Y mae'r menywod yn gwneuthur llawn cymmaint o'r caledwaith a'r gurrywod, ac mewn llawer man y maent yn gwneuthur mwy. Y mae dros filiwn o'r genedl yn filwyr, heddeiddwaid, &c., a gadewir y menywod i bâlu, i aredig, i hau, ac i fedd er cynnal eu hunain a'u plant, yn ogystal a hynnal y llywodraeth gostfawr y maent yn byw o dani. Hwylt-hwylt yw hyd y nod yr heolgarthesau mewn tref a gwlad agos. Y mae edrych ar gestyll mawreddog y wlad, ei phlasau gwychion, a'i heglwys drudfawr, yn peri i ni synu fod y fath gamwri yn cael ei wneuthur â'i merched. Ymroli rhai yn eu cerbydau amherodrol, a marchoga ereill yn harddwch bonedigeiddrwydd, a hwythau y monachod bolroth, gannoedd o honynt, a rodiant oddiamgylch yn eu gynau llaesion gan wneuthur dim, tra y mae'r merched tyner eu cyfansoddiad yn ymdrabaeddu mewn batw, gan gael eu hiselu ym mhob ystyr, a'u gwneuthur yn hen yn gynt na phryd. Nid yw y Wladuriaeth na'r Eglwys yn gofalu dim am eu sefyllfa gymdeithasol na chrefyddol; y maent yn ddisylw yn y lluwys, fel pe na buasent wedi cael eu gwneuthur i ddim ond gweini i anlladrwydd, glythineb, a segurddod y gurrywod.

Dyna rai enghreifftiau i ddangos nad oedd *Y Parthsylydd* yn hwyrfyddig i ddatgan barn go bendant ar dramorwyr.

YMYL Y DDALEN

Rhwng 1718 a 1733 ni wyddys am ragor na naw (neu ddeg) o lyfrau a llyfyrnau a argraffwyd ar Wasg Isaac Carter (bu ef farw yn 1741). Yn 1725 symudodd ei wasg o Drerhedyn, ger Castellnewydd Emlyn i Gaerfyrddin. Ef, fe gofir, oedd y cyntaf i sefydlu gwasg argraffu swyddogol ar ddaear Cymru.

Nid oes gennyf ond dwy enghraifft o gynnyrch prin y wasg hon, sef y ddwy gyfrol fwyaf a argraffwyd arni: *Eglurhaad o Gatechism Byrraf y Gymanfa* (Trerhedyn 1719) tt. 445; a *Maddeuant i'r Edifairiol . . .* (Caerfyrddin 1725-6). Cyfieithiadau ydynt o'r Saesneg.

Yng nghyflor 1719 ceir gair byr at y darlennydd yn pwysleisio iddi gael ei dwyn allan 'trwy lawer o boen, a thraul . . . Ynglŷn â chyfrol 1725-6 y mae'n ddiddorol fod inc coch wedi ei ddefnyddio i gysodi rhannau o'r teitl ar yr wyneb-ddalen. Hefyd, ar un o dudalennau fy nghopi i nododd Mary Peter mai hi oedd perchen y gyfrol yn 1786, ac ychwanegodd: 'Dafydd fy mab a aned yn y flwyddyn 1776, 24 o fis Tachwedd'. Gellir awgrymu fod rhywrai anhysbys a hael wedi noddi'r cyfrolau swmpus hyn. Faint o gynnyrch ei wasg, tybed, sydd ym mediant casgliwyr unigol? Nid rhyw lawer! D.W.W.